# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
# 2017 Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer – Crynodeb Gweithredol

Cyflawni Rhan IV Deddf Amgylchedd 1995
Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol

Medi 2017

# Crynodeb Gweithredol (Cymraeg)

Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni anghenion y broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol (RhAALl) fel y nodir yn Adran IV, Deddf yr Amgylchedd (1995,) y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon 2017 a'r dogfennau Polisi a'r Canllawiau Technegol perthnasol. Mae'r broses RhAALl yn gosod rheidrwydd ar bob awdurdod lleol i adolygu ac asesu'n gyson ansawdd yr aer yn eu hardaloedd a phenderfynu a fydd amcanion ansawdd yr aer yn debygol o gael eu cyflawni ai peidio. Lle ystyrir y bydd gormodiant yn debygol, bydd rhaid i'r awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) a pharatoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (CGAA) a fydd yn nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi yn eu lle er mwyn cyflawni'r amcanion.

Prif achos llygredd aer ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw traffig ar y ffordd. Gan fod gormodiant i amcanion cymedrig ansawdd aer $NO_2$ , dynodwyd AAA (Amcan Ansawdd Aer) yn ardal Heol Twynyrodyn ar 30 Ionawr 2017 a gwnaethpwyd datganiad ARhAA. Ym 2016, dynododd tiwbiau trylediad fod lefelau $NO_2$ mewn safleoedd o amgylch 55 Heol Twynrodyn wedi croesi lefel gormodiant yr amcan ansawdd aer cymedrig, blynyddol – yr AAA neu ei fod oddi fewn i 10% iddo. Mae'r holl diwbiau tryledìad a achosodd bryder oddi fewn i'r ARhAA presennol.

Mae CBSMT yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer ymgynghoriad a chyhoeddiad. Mae'n debygol o gynnwys addasiadau arfaethedig ar gyfer lefelau traffig ar Heol Twynyrodyn drwy ostegu traffig a chynnig llwybrau amgen. Mae llwybr amgen posib, i'r ochr Ogleddol o Heol Twynyrodyn yn cael ei ystyried a gan ragweld hyn, mae 4 safle ychwanegol wedi cael eu creu ar gyfer gosod tiwbiau tryledìad.

Mae'n bosib y gall dau ddatblygiad effeithio ar ansawdd yr aer. Yn gyntaf, cais cynllunio i adeiladu gorsaf fysiau newydd ar Stryd yr Alarch. Dynododd modelu y bydd AAA yr $NO_2$ yn cydymffurfio â chanllawiau. Mae CBSMT yn bwriadu cadarnhau hyn drwy ddefnyddio tiwbiau tryledìad. Yn ail, mae datblygiad manwerthu Trago Mills wrthi'n cael ei adeiladu a'r bwriad yw ei agor yn gynnar ym 2018. Mae datblygiadau tebyg yn Ne-orllewin Lloegr wedi arwain at dagfeydd a chynnydd mewn $NO_2$. Agorwyd tiwb tryledìad ar Heol Abertawe yn

Ebrill 2017 i fonitro $NO_2$ cefndirol er mwyn ei gymharu â phan fydd y datblygiad yn agor yn gynnar ym 2018.

Mae Adran Iechyd yr Amgylchedd yn ymgynghorai statudol ar geisiadau cynllunio ac yn mynychu'r Bwrdd Strategaeth Twristiaeth ac Adfywiad Economaidd. Mae hyn yn ein galluogi i ystyried a chynghori ar ansawdd aer yn ystod y broses ddatblygu.